

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

Strwythur ac Aelodaeth Pwyllgorau 2012-2013

Cadeirydd: Dr. Dewi Hughes

Is-Gadeirydd : Mr. Emlyn P. Jones

Mae'n ofynnol i Gyrrff Llywodraethu benderfynu aelodaeth pwyllgorau. Peth priodol yw gwneud hyn yn Nhymor yr Hydref, er mwyn i'r strwythurau barhau yn ystod y flwyddyn ysgol dan sylw. O wneud hynny, mae modd cyfoethogi a gwella gwaith yr holl Gorff Llywodraethu yn sylweddol drwy rannu'r tasgau dan sylw.

Yn amlach na pheidio, bydd Pennaeth am fynd at Gadeirydd y Corff Llywodraethu am gyngor. Dyna pam yr argymhellwn yn gryf na ddylai'r Cadeirydd fod yn aelod o'r pwyllgorau a nodir â seren *, sef y pwyllgorau statudol, gan y byddai hynny yn tanseilio'u gallu i gymryd rhan mewn unrhyw weithdrefnau.

Pwyllgor	Cylch gorchwyl	Aelodaeth
<p>Adnoddau Dynol a Chyflogau'r Staff-</p> <p>Gweler nodyn 4</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno ar nifer staff yr ysgol, a'i adolygu. Denu a phenodi gweithwyr nad ydyn nhw'n aelodau o gylch yr arweinyddiaeth. (Mae Rheoliadau ar wahân sy'n llywodraethu <i>Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid.</i>) Awdurdodi cyhoeddi datganiadau cyflog blynyddol Monitro'r broses o weithredu polisi materion adnoddau dynol yr ysgol ac adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu. <p>Chaiff neb o weithwyr yr Ysgol fod yn rhan o'r canlynol (ac eithrio'r Pennaeth):</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried unrhyw argymhellion gan y pennaeth i ddyfarnu pwyntiau cyflog dewisol ychwanegol a phenderfynu arnyn nhw Adolygu'r cyflogau ar gyfer pob un o'r staff, gan gynnwys aelodau o'r cylch arwain, yn unol â pholisi cyflog yr Ysgol. <p>Ddylai'r Pennaeth ddim bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r cyd-bwyllgor sy'n trafod cyflog y Pennaeth neu arfarniad cyflawniad.</p>	<p>Pump Llywodraethwr (dewisol) Emlyn P. Jones Amanda Jones Rhys Llewelyn Hugh Masters-Williams John Pugh Angela Williams</p> <p>Cadeirydd: Mr. Rhys Llewelyn</p>
Cyllid	<ul style="list-style-type: none"> Paratôl fersiwn cyntaf o gynllun cyllideb i'w ystyried gan y corff llywodraethu yn flynyddol Monitro gwariant yn rheolaidd yn ôl gofynion y cynllun cyllido rydyn ni wedi cytuno arno. Cyfrannu at waith gweithredu'r broses o hunan-werthuso ariannol a'i monitro Cymeradwyo trosglwyddo symiau o arian rhwng y categorïau yn y gyllideb Ystyried unrhyw faterion sydd wedi'u cyfeirio o du'r corff llywodraethu neu bwyllgor arall Ystyried unrhyw ddogfennau ymgynghorol ynglŷn â Chynllun Dirprwy Materion Cyllid Trafod adroddiadau gan archwilwyr a chyflwyno unrhyw ymateb neu wneud argymhellion i'r corff llywodraethu Adolygu polisi Codi Tâl ar yr ysgolion ac argymhell newidiadau iddo i'r corff llywodraethu 	<p>Pump Llywodraethwr (dewisol) John Bell Ray Butler Martyn Geraint Gary Jenkins Emlyn P. Jones Hugh Masters-Williams Graham Stacey Angela Williams</p> <p>Cadeirydd: Emlyn P. Jones</p>

<p>Adeiladau, a lechyd a Diogelwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro cyflwr tir ac adeiladu sy'n rhan o safle'r ysgol • Argymell rhaglen o waith cynnal a chadw a gwelliannau i'r corff llywodraethu • Penderfynu ar drefniadau ar gyfer contractau glanhau a chontractau cynnal a chadw'r tir, a monitro perfformiad • Goruchwylio materion gofal a diogeledd a'u monitro. • Datblygu, monitro, ac adolygu polisi lechyd a Diogelwch yr Ysgol. • Datblygu, monitro, ac adolygu polisi'r ysgol ar gyfer defnyddio tir ac adeiladau y tu allan i oriau ysgol. 	<p>Pump Llywodraethwr (dewisol) Ray Butler John David Gary Jenkins Graham Stacey Angela Williams</p> <p>Cadeirydd - Ray Butler</p> <p>Cworwm o dri, neu o 50% (wedi'i dalgrynnu i fyny) o'r aelodaeth gytunedig</p>
<p>Cwricwlwm</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Paratŷi cwricwlwm yr ysgol, ei fonitro a'i adolygu • Argymell blaenoriaethau addas i'r corff llywodraethu i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) • Adolygu'n rheolaidd y cynnydd ynghylch cyflawni'r blaenoriaethau yn y CDY • Cytuno ar bennu targedau cyflawniad yr ysgol yn flynyddol • Monitro effeithlonrwydd polisiâu cwricwlaidd a bugeiliol yr ysgol (addysg anghenion arbennig, addysg grefyddol a chydaddoli, addysg rhyw, diogelu plant, camddefnyddio cyffuriau ac ati) • Ystyried unrhyw gwynion ffurfiol ynglŷn â'r cwricwlwm 	<p>Pump Llywodraethwr (dewisol) Julie Barton Barrie Davies Dafydd Davies Steve Davies Martyn Geraint Ffion Hawkins Dewi Hughes John Pugh Angela Williams</p> <p>Cadeirydd: Dewi Hughes</p> <p>Cworwm o dri, neu o 50% (wedi'i dalgrynnu i fyny) o'r aelodaeth gytunedig</p>
<p>*Disgyblu a Gwahardd Disgyblion (Statudol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro hynt o weithredu polisi ymddygiad yr Ysgol, ac adrodd wrth y Corff Llywodraethu. • Ystyried unrhyw sylwadau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Pennaeth i wahardd disgyblion o'r Ysgol. <p>Chaiff Pennaeth yr Ysgol ddim bod yn Aelod o'r Pwyllgor hwn.</p>	<p>Tri neu bump Llywodraethwr (Cworwm o dri) John Bell Martyn Geraint Dewi Hughes</p> <p>Cadeirydd: Dewi Hughes</p> <p><u>*Aelodau Wrth Gefn:</u> Dafydd I. Edwards Sarah Thomas</p>
<p>Cysylltiadau â'r Gymuned ac â Rhieni</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu, monitro, ac adolygu'r polisi Ysgol Fro • Paratŷi fersiwn cyntaf yr adroddiad blynyddol i rieni • Rhoi cymorth ynglŷn â pharatŷi prosiectws yr ysgol • Cydgysylltu â chorff rhieni'r ysgol (Cymdeithas Rhieni Athrawon, cyfeillion ac ati) 	<p>Pump Llywodraethwr (dewisol) Julie Barton Dafydd I. Edwards Martyn Geraint Dewi Hughes John Pugh Graham Stacey Sarah Thomas Angela Williams</p> <p>Cadeirydd: Dewi Hughes</p> <p>Cworwm o dri, neu o 50% (wedi'i dalgrynnu i fyny) o'r aelodaeth gytunedig</p>

<p>Cwynion</p> <p>**</p> <p>Gweler nodyn 4</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried unrhyw gwynion a ddaw i law, yn unol â pholisi cwynion cyffredinol yr Ysgol. • Ystyried unrhyw gwynion sy'n ymwneud â disgyblion, boed fel achwynyddion, tystion neu lle gwneir cwyn yn eu herbyn, yn unol â'r polisi y cytunwyd arno. 	<p>Tri neu bump Llywodraethwr (Cworwm o dri) Dewi Hughers Rhys Llewelyn Hugh Masters-Williams</p> <p>Cadeirydd: Rhys Llewelyn</p> <p>Tri Llywodraethwr (Cworwm o dri)</p> <p><u>Aelodau Wrth Gefn:</u> John Pugh</p>
--	--	---

D.S.

1. Does gan Lywodraethwyr unigol, grwpiau o Lywodraethwyr, na Phwyllgorau, mo'r hawl i weithredu ar ran y Corff Llywodraethu, oni bai fod y Corff Llywodraethu, mewn cyfarfod wedi cytuno i ddirprwyo swyddogaeth benodol i'r Llywodraethwr, grŵp o Lywodraethwyr, neu Bwyllgor, dan sylw; neu os yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i arfer swyddogaeth mewn ffordd benodol.
2. Os caiff cyfarfod o Bwyllgor heb fod aelod o'r Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr yn bresennol ei gynnal, cyfrifoldeb Cadeirydd y Pwyllgor yw sicrhau llunio cofnodion o'r cyfarfod hwnnw, a threfnu i'r cofnodion hynny fod ar gael i'r Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr i'w cynnwys yn Agenda cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu llawn. Os bydd y Cadeirydd yn absennol, rhaid i'r Pwyllgor ethol un o'i aelodau i weithredu yn Gadeirydd yn ystod yr absenoldeb. Chaiff neb sy'n gweithio yn yr Ysgol weithredu'n Gadeirydd.
3. Mae hi'n hanfodol i gynnwys aelodau wrth gefn a enwyd ar gyfer y Pwyllgorau statudol, ac iddynt gael eu galw (os oes angen) yn y drefn blaenoriaeth fel y rhoir honno ar y rhestr aelodaeth.
4. Dyw'r Rheoliadau ddim yn pennu "dim" ynghylch enwi Aelodau Wrth Gefn ar gyfer Pwyllgorau eraill. Doeth o beth, er hynny, fyddai enwi rhai ar gyfer y Pwyllgorau a nodir â seren * ar y rhestr hon. Pan fydd yn ofynnol i'r Pwyllgorau hyn gyfarfod, bydd eu gweithrediadau yn ddarostyngedig i gyfyngiadau amser. Os nad oes modd i'r Llywodraeth wneud cworwm yn unol â'r rheol, mae'n bossibl y byddant yn torri'r Rheoliadau.
5. Caiff y Corff Llywodraethu, neu Bwyllgor, ganiatáu i rywun nad yw'n aelod o'r Corff Llywodraethu fod yn bresennol mewn cyfarfod. Dim ond y Corff Llywodraethu gaiff roi hawliau pleidleisiau i aelodau o Bwyllgor nad ydynt yn Llywodraethwyr, ar yr amod eu bod dros 18 oed. Er hynny dyw'r dewis hwn ddim yn berthnasol i'r canlynol:
Pwyllgorau a/neu Baneli sy'n ymdrin â phenodi Penaethiaid neu Ddirprwy Benaethiaid; Disgyblu a Diswyddo Staff; Apeliadau Disgyblu a Diswyddo Staff; Disgyblu a Gwahardd Disgyblion; ac unrhyw fater arall nad oes ond gan y Corff Llywodraethu llawn gyfrifoldeb amdano. Yr eithriad i hyn yw materion sy'n ymwneud ag Amddiffyn/Dioglu Plant, lle mae'r Rheoliadau yn caniatáu cynnwys rhai nad ydyn nhw'n Llywodraethwyr.